# SL(5)476 – Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019 ("y rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009"), i weithredu'n rhannol reoliadau'r UE ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion. Caiff rheoliadau tebyg eu gwneud yn holl weinyddiaethau eraill y DU.

Mae'r Rheoliadau yn cadw'r gofyniad ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd ("ASB") i godi ffi ar weithredwyr safleoedd cig a gymeradwyir yng Nghymru er mwyn adennill canran o'r costau a ysgwyddwyd gan yr ASB wrth gyflawni rheolaethau swyddogol mewn safleoedd o'r fath i wirio a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ynghylch hylendid cig, lles anifeiliaid a chigydda. Nid yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw newidiadau i'r taliadau eu hunain.

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**.

   1.1 Nodwn fodd y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a'r esboniad am hyn a ddarparwyd gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, **mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Tachwedd 2019**.

   Yn benodol, nodwn yr hyn a nodir yn y llythyr am y Rheoliadau hyn, sef eu bod "yn hanfodol i gynnal rheolaethau a gwaith gorfodi swyddogol" ac, os na fydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2019, "ni fydd gan Gymru fframwaith cyfreithiol i orfodi rheolaethau swyddogol, a allai beryglu iechyd y cyhoedd (yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid), tanseilio hyder busnesau a defnyddwyr a pheryglu mynediad i farchnad yr UE. Os na fydd yr offerynnau statudol yn dod i

rym ar 14 Rhagfyr, ni fydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau gorfodi eraill yng Nghymru’r pwerau deddfwriaethol i orfodi cyfreithiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.”

1.2 Roedd gan Weinidogion Cymru ddewis pa weithdrefn i'w dilyn mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 2 o Atodlen 2 iddi. Mae'n ymddangos bod y weithdrefn a ddewisiwyd yn briodol.

1.3 Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2009 fel a ganlyn:

- mae rheoliad 3(c)(ii) yn dileu paragraff (b) o'r diffiniad o “safle torri”, sy'n rhoi diffiniad ychwanegol o safle torri at ddibenion Rheoliadau 2009, gan nodi ei fod yn safle torri a oedd, ar 31 Rhagfyr 2005 (er nad oedd ganddo'r gymeradwyaeth na'r gymeradwyaeth amodol oedd eu hangen arno o dan Erthygl 4.3 o Reoliad 853/2004), yn gweithredu fel safle torri trwyddedig o dan yr Wild Game Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995;
- mae rheoliad 3(e)(ii) yn dileu paragraff (b) o'r diffiniad o “sefydliad trin anifeiliaid hela”, sy'n rhoi diffiniad ychwanegol o sefydliad trin anifeiliaid hela at ddibenion Rheoliadau 2009, gan nodi ei fod yn sefydliad trin anifeiliaid hela a oedd, ar 31 Rhagfyr 2005 (er nad oedd ganddo'r gymeradwyaeth na'r gymeradwyaeth amodol oedd eu hangen arno o dan Erthygl 4.3 o Reoliad 853/2004), yn gweithredu fel cyfleuster trwyddedig ar gyfer prosesu helgig gwyllt o dan yr Wild Game Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995; ac
- mae rheoliad 3(i)(ii) yn dileu paragraff (b) o'r diffiniad o “lladd-dy”, sy'n rhoi diffiniad ychwanegol o ladd-dy at ddibenion Rheoliadau 2009, gan nodi ei fod yn lladd-dy a oedd, ar 31 Rhagfyr 2005 (er nad oedd ganddo'r gymeradwyaeth na'r gymeradwyaeth amodol oedd eu hangen arno o dan Erthygl 4.3 o Reoliad 853/2004), yn gweithredu fel lladd-dy trwyddedig o dan yr Wild Game Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995.

Effaith bosibl y darpariaethau a restrir uchod yw na fyddai rhai safleoedd/sefydliadau/lladd-dai a oedd wedi’u hawdurdodi at ddibenion Rheoliadau 2009 yn y gorffennol wedi’u hawdurdodi mwyach. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw wybodaeth am y ffordd y bydd hyn yn effeithio ar y safleoedd/sefydliadau/lladd-dai sydd wedi'u hawdurdodi o dan Reoliadau 2009, os o gwbl. Mae’n bosibl nad yw'r categorïau awdurdodi hyn yn berthnasol mwyach gan fod Rheoliad 853/2004 wedi'i ddisodli a bod Rheoliadau Helgig Gwyllt (Hylendid ac Archwilio) 1995 wedi'u diddymu, ond mae angen gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau beth fydd effaith y darpariaethau a restrir uchod.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Nodwn fod y broses o ddrafftio’r Rheoliadau hyn wedi’i gohirio o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch statws y Deyrnas Unedig fel aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth mewn perthynas â phwynt adrodd 3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**4 Rhagfyr 2019**